

Tasg 2

Nid aur yw popeth melyn (2)

1. Meddyliwch am rywbeth sy'n ymddangos yn hyfryd ar yr olwg gyntaf ond sy'n beryglus, neu'n ddrwg, neu'n ofnadwy, neu'n wenwynig, neu'n niweidiol – rhywbeth sy'n addas i ddangos **Nid aur yw popeth melyn**.

Gall fod yn

- anifail
- planhigyn
- blodyn
- bwyd
- peth
- unrhyw beth.

2. Chwiliwch am wybodaeth am y peth, e.e. pam mae'n beryglus neu'n ddrwg ac ati.

3. Rydych chi'n mynd i ysgrifennu am y peth yma ond heb ei enwi, ac yna rydych chi'n mynd i ddarllen y disgrifiad i'r grŵp. Bydd rhaid iddyn nhw ddyfalu beth ydyw.

a. Lawrlwythwch lun o'r peth ond peidiwch â'i ddangos i neb.

b. Gwnewch nodiadau, e.e.

Sut mae'n edrych ar y tu allan (maint, lliw, corff / siâp ac ati)?

Oes rhywbeth arbennig am y peth yma (e.e. Ydy e'n blasu / aroglu'n dda neu yn ddrwg? Ydy e'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud rhywbeth arbennig?)

Pam mae'n ddrwg neu'n beryglus?

ac ati

c. Ysgrifennwch am y peth.

Dywedwch gymaint â phosib – ond peidiwch â'i enwi.

ch. Darllenwch eich disgrifiad i'r grŵp.

Rhaid i bawb yn y grŵp ddyfalu beth yw'r peth.

Dangoswch y llun ac enwch y peth.